

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 16 October 2017** at 6.30 p.m.

<b>PRESENT:</b> -	His Worship The Mayor Councillor D Hainge The Deputy Mayor, Councillor J Wynn Jones Councillors	G O Roberts (Chairman) Ifan James Dylan Fearnley Keith Jones Medwyn Hughes Enid Parry Owen Hurcum Gareth Roberts	Mair Rowlands Conor Savage Luke Tugwell Elin Walker Jones
-------------------	---	---	--

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

## **107/17 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Les Day, Colin King, J M Martin, N Pickavance, John Wyn Williams and Huw Wyn Jones.

## **108/17 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Declaration of interest - Councillor G Roberts on Item No 110/17 Planning Applications – No. C17/0281/11/LL.

## **109/17 URGENT BUSINESS**

- a) **Remembrance Sunday** - His Worship the Mayor reminded Members about the Remembrance Service, Parade and Wreath Laying on 12<sup>th</sup> November 2017.
- b) **Section 106 Monies** - The Town Clerk reminded Members of the recently circulated letter appertaining to Section 106 Planning monies available for certain projects within the Community Boundaries of Bangor and Pentir.  
**RESOLVED** : that the Town Clerk request further details of conditions, application and criteria.
- c) **Watkin Jones Group Presentation** – The Town Clerk informed the Committee that an invitation to a preview of emerging proposals for Phase II of its Boatyard site, this would be followed by a Public Exhibition on 26 October at Clwb Hirael.
- d) **Twinning** – The Town Clerk confirmed that the two names going forward for the forthcoming Twinning Visit to Soest were Councillors Gareth Roberts and Conor Savage. In the absence of a third name the nomination be delegated to His Worship the Mayor in consultation with the Town Clerk.

## **110/17 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C17/0909/11/LL** Change of use of existing garden room into a dog grooming salon. 55 Ffordd Belmont. **No objections.**

**C17/0939/11/LL** Change of use of dwelling house to (C3) to a house of multiple occupation (C4). Bryn Rhosyn, 91 Caernarfon Road. **Objection on the grounds that the Hendre Ward is already over 10% over the accepted threshold with houses in multiple occupation. It would therefore have an adverse effect on the local environment.**

**C17/0976/11/CC** Works to 3 trees protected by a tree preservation order. Grwp Llandrillo Menai, Friars Site, Ffriddoedd Road. **No objections.**

**C17/0281/11/LL** Erection of new dwelling. Land opposite 4, Bryn Heulog Terrace. **No objections.**

Councillor G Roberts declared an interest in this application and left the Chamber during its debate.

## **111/17 REVIEW OF WEBSITE ADDRESS & E-MAIL**

The Town Clerk referred to Members' recent request to review the website name and e mail labels. Members carefully considered the options available.

**RESOLVED:** that the Town Clerk be authorised to apply for the following domain names:-  
cyngordinasbangor.llyw.cymru and bangorcitycouncil.gov.wales

## **112/16 COED MAWR COMMUNITY CENTRE - Expiry of Lease**

The Town Clerk reported that the 21 year lease with Gwynedd Council for the Coed Mawr Community Centre had expired and the City Council had been offered an option of a further lease for 99 years subject to the specified conditions.

Members considered the previous history to this matter and commented on how well the Centre was run both operationally and financially. Members also noted that if there was a preference the Committee were content to operate as a sub-tee of the City Council. The Town Clerk highlighted the costs and the potential liability to the City Council in the future.

**RESOLVED:** that the option to take a further 99 year lease not be accepted, but to support the Management Committee in obtaining a lease direct with Gwynedd Council.

#### **113/17 SIGNS “TO LET” IN BANGOR**

The Town Clerk reminded Members that he had circulated a proposed joint letter which was to be sent to letting agents in Bangor with the aim of introducing a ‘Voluntary Code’ to display ‘To Let’ signs. This would be a more palatable solution to the sometimes difficult enforcement of the law in relation to over-use of the signs.

**RESOLVED :** that the proposal joint letter be supported subject to it including the whole of Bangor, and that the Town Clerk to prepare a short press statement once the Code was accepted.

#### **114/17 HIGHWAY MATTERS**

The Gwynedd Council Prohibition and Restriction of Waiting and Street Parking Places 2017 – **Noted**.

The Gwynedd Council (20 ZONE, 30 & 40M.P.H Speed Restriction) ORDER 2017 – **Noted and the Highway Authority be informed that the City Council would support a 20mph enforcement area around Our Lady’s School on Caernarfon Road together with appropriate flashing lights on its approach.**

#### **115/17 LICENSING MATTERS**

Sex Shop Licence – Nice ‘n’ Naughty, 27 High Street, Bangor – **No objections.**

#### **116/17 INVOICES FOR PAYMENT**

It was noted that invoices as detailed on the schedule totalling £6,603.96 had been approved.

**RESOLVED:** that the payment be noted.

The Meeting closed at 7.40 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun, 16 o Hydref 2017** am 6.30 y.h.

<b>PRESENNOL :-</b>	Ei Deilyngdod y Maer y Cynghorydd D Hainge Y Dirprwy Faer y Cynghorydd J Wynn Jones Y Cyngorwyr (G O Roberts Cadeirydd) Ifan James Dylan Fearnley Medwyn Hughes Owen Hurcum	Ifan James Keith Jones Enid Parry Gareth Roberts	Mair Rowlands Conor Savage Luke Tugwell Elin Walker Jones
---------------------	--	---	--

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

## 107/17 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorwyr Les Day, Colin King, J M Martin, N Pickavance, John Wyn Williams a Huw Wyn Jones.

## 108/17 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLTTIAD PERSONOL

Datganiad o ddiddordeb - Cynghorydd G Roberts yn Eitem 110/17 Ceisiadau Cynllunio - Rhif C17/0281/11/LL

## 109/17 MATERION BRYS

- a) **Sul y Cofio** – Atgoffodd Ei Deilyngdod y Maer yr Aelodau am Wasanaeth Sul y Cofio, yr Orymdaith a Gosod y Dorch ar 12 Tachwedd 2017.
- b) **Arian Adran 106** - Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau am y llythyr a gylchredwyd yn ddiweddar ynglŷn ag Adran 106. Arian cynllunio sydd ar gael i rai prosiectau arbennig o fewn Ffiniau Cymunedol Bangor a Phentir.  
**PENDERFYNWYD** : fod Clerc y Dref i ofyn am fwy o fanylion am yr amodau, y cais a'r meinu prawf.
- c) **Cyflwyniad Grŵp Watkin Jones** - Hysbysodd Clerc y Dref y Pwyllgor fod gwahoddiad wedi dod i ragolwg o'r cynigion ar gyfer Cam II safle'r Iard Gychod. Byddai hwn yn cael ei ddilyn gan Arddangosfa Gyhoeddus ar 26 Hydref yng Nghwlwb Hirael.
- d) **Gefeillio** – Cadarnhaodd Clerc y Dref mai'r ddua enw a gyflwynwyd ar gyfer yr Ymweliad Gefeillio â Soest oedd y Cyngorwyr Gareth Roberts a Conor Savage. Yn absenoldeb trydydd enw, byddai'r enwebiad yn cael ei ddirprwyo i'w Deilyngdod y Maer mewn ymgynghoriad â Chlerc y Dref.

## 110/17 CEISIADAU CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD** : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

C17/0909/11/LL Newid defnydd ystafell gardd bresennol i'w defnyddio fel salon ymdwtio cŵn. 55 Ffordd Belmont. Dim gwrthwnebiad.

C17/0939/11/LL Newid defnydd tŷ preswyl (C3) i dŷ amlfeddianeth (C4). Bryn Rhosyn, 91 Ffordd Caernarfon. Gwrthwnebiad ar sail yffaith fod Ward Hendre dros 10% yn barod o'r trothwy derbynol i dai amlfeddianeth. Byddai'n cael effaith andwyol felly ar yr amgylchedd lleol.

C17/0976/11/CC Gwaith i 3 coeden a warchodir dan orchymyn diogelu coed. Grŵp Llandrillo Menai, Safle Friars, Ffordd Ffriddoedd, Bangor. Dim gwrthwnebiad.

C17/0281/11/LL Codi annedd newydd. Tir gyferbyn â 4, Teras Bryn Heulog, Bangor Dim gwrthwnebiad.

Datganodd y Cyngorwyr G Roberts ddiddordeb yn y cais hwn a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth.

## 111/17 ADOLYGIAD O'R CYFEIRIAD GWEFAN A'R E-BOST

Cyfeiriodd Clerc y Dref at gais diweddar gan Aelodau i adolygu enw'r wefan a'r labeli e-bost. Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth fanwl i'r opsiynau sydd ar gael.

**PENDERFYNWYD:** awdurdodi Clerc y Dref i wneud cais am yr enwau part canlynol:-  
cyngordinasbangor.llyw.cymru a bangorcitycouncil.gov.wales

## 112/17 CANOLFAN GYMDEITHASOL COED MAWR- Terfyn y Brydles

Adroddodd Clerc y Dref fod y brydles 21 mlynedd gyda Chyngor Gwynedd am Ganolfan Gymdeithasol Coed Mawr wedi dod i ben a bod Cyngor y Ddinas wedi cael cynnig cael prydles bellach am 99 mlynedd yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir.

Ystyriodd yr Aelodau hanes blaenorol y mater hwn gan ddweud fod y Ganolfan yn cael ei rhedeg yn dda, yn weithredol ac yn ariannol. Nodwyd hefyd, os oedd dewis, mae dymuniad y Pwyllgor fyddai gweithredu fel is-brydlesai i Gyngor y Ddinas. Tynnodd Clerc y Dref sylw at y costau a'r rhwymedigaeth bosibl i Gyngor y Ddinas yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:** peidio â derbyn yr opsiwn i gymryd prydles arall am 99 mlynedd, ond cefnogir Pwyllgor Rheoli i gael prydles yn uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd.

#### 113/17 ARWYDDION “AR OSOD” YM MANGOR

Atgoffodd Clerc y Dref yr Aelodau ei fod wedi cylchredeg llythyr ar y cyd arfaethedig a fyddai'n cael ei anfon i asiantwyr gosod ym Mangor gyda'r nod o gyflwyno "Cod Gwirfoddol" i ddangos arwyddion "Ar Osod". Byddai hwn yn ateb mwy derbyniol na cheisio gorfodi'r gyfraith sy'n anodd weithiau mewn perthynas â gor-ddefnyddio'r arwyddion.

**PENDERFYNWYD;** fod y llythyr ar y cyd arfaethedig yn cael ei gefnogi cyn belled â'i fod yn cynnwys Bangor gyfan, a bod Clerc y Dref yn paratoi datganiad byr i'r wasg wedi i'r Cod gael ei dderbyn.

#### 114/17 MATERION PRIFFYRDD

Gorchymyn Cyngor Gwynedd Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd 2017 - **Nodwyd**

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cyfyngiad Cyflymder Parth 20, 30 a 40 M.Y.A.) 2017 - **Nodwyd a'r Awdurdod Priffyrd i gael ei hysbysu y byddai Cyngor y Ddinas yn cefnogi ardal orfodaeth 20 mya o gwmpas Ysgol Ein Harglwyddes ar Ffordd Caernarfon ynghyd â goleuadau'n fflachio wrth ddynesu ati.**

#### 115/17 MATERION TRWYDDEDU

Trwydded Siop Rhyw - Nice 'n' Naughty, 27 Stryd Fawr, Bangor - Dim gwrthwynebiad.

#### 116/17 ANFONEBAU I'W TALU

Nodwyd cymeradwyaeth i dalu'r anfonebau fel eu ceir yn y Rhestr, yn rhoi cyfanswm o £6,063.96.

**PENDERFYNWYD:** nodi'r taliad.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.40 y.h.